DINAS DDIWYLLIANT Y DU

Dinas Diwylliant 2013 y DU – Arweiniad ynghylch Ymgeisio

Cyflwyniad

Paratowyd yr arweiniad hwn gan Regeneris Consulting ar ran yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). Ei ddiben yw cynorthwyo'r ardaloedd hynny sy'n ymgeisio am yr hawl i gael eu dynodi yn Ddinas Diwylliant 2013 y DU. Mae hon yn gystadleuaeth ar gyfer y DU gyfan, felly mae'n agored i bob ardal sy'n dymuno ymgeisio. Mae'r nodyn arweiniad hwn yn ailadrodd nodau cyffredinol Dinas Diwylliant y DU, ynghyd â diben y broses ymgeisio. Yna, mae'n esbonio'r broses ymgeisio ei hun a'r amserlenni cysylltiedig.

Amcanion Cyffredinol Dinas Diwylliant y DU

Nod cyffredinol rhaglen Dinas Diwylliant y DU yw annog gweithgarwch sy'n defnyddio diwylliant fel ffordd o ysgogi newid. Bydd angen i ardaloedd sy'n ymgeisio nodi eu gweledigaeth ar gyfer Dinas Diwylliant y DU, gan nodi sut y byddant yn manteisio arno er mwyn gwneud newid sylweddol yn eu hardal.

Bydd angen i Ddinas Diwylliant 2013 y DU:

Gynnig rhaglen ddiwylliannol o ansawdd uchel sy'n datblygu ac sy'n ehangu cryfderau ac asedau lleol, gan gyrraedd amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd yn ystod y flwyddyn, a chan fod yn brosiect dilynol priodol ar gyfer Dinas Diwylliant Lerpwl a'r Olympiad Diwylliannol;

Cyflwyno rhaglen sy'n manteisio ar ddiwylliant er mwyn arwain at adfywio cymdeithasol parhaus trwy gyfrwng gweithgarwch ymgysylltu, ehangu cyfranogiad a chynorthwyo cydlyniant ac amrywiaeth ddiwylliannol;

Arwain at effaith economaidd amlwg o ganlyniad i'r rhaglen;

Manteisio'n llawn ar ganlyniadau bod yn Ddinas Diwylliant y DU.

Felly, mae Llywodraeth y DU yn dymuno cael ceisiadau:

Sy'n drawiadol – gan ddatblygu'r hyn a gynigir gan yr ardal a'i hasedau presennol

Sy'n uchelgeisiol ac sy'n ymestynnol – gan arwain at newid sylweddol yn yr ardal

Sy'n dangos rhagoriaeth ddiwylliannol ac artistig

Sy'n cynnwys partneriaethau eang ac sy'n gweithio gyda phartneriaethau eang

Sy'n cyrraedd ystod eang o gynulleidfaoedd a chyfranogwyr – yn enwedig grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol

A fydd yn arwain at newid parhaus yn yr ardal

Sy'n realistig ac y mae modd ei gyflawni.

Pa ardaloedd fydd yn gallu ymgeisio?

Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu mabwysiadu dull gweithredu hyblyg wrth gytuno ar ba ardaloedd fydd yn gallu ymgeisio. Yr hyn sy'n bwysig yw gallu'r ardal sy'n ymgeisio i gyflwyno rhaglen sylweddol o weithgarwch diwylliannol yn ystod 2013, y mae modd dangos ei bod yn arwain at newid sylweddol yn yr ardal a ddewisir. Rhaid i'r ardal gynnwys ffocws canolog eglur, er y gellir cyflwyno rhan o'r rhaglen mewn cefnwlad ehangach (fel y digwyddodd yn Ninas Diwylliant Lerpwl 2008). Er enghraifft, yn 2002, gwelwyd Inverness/Ucheldiroedd yr Alban yn cyflwyno cais i fod yn Ddinas Diwylliant Ewropeaidd 2008.

Fodd bynnag, dylai'r lleoliad sy'n ymgeisio feddu ar hunaniaeth eglur ar gyfer ymwelwyr: dinas a'i chefnwlad; neu set o ardaloedd trefol y gwelir cyswllt agos rhyngddynt; neu, fe ddylai fod yn ardal sy'n gallu cynnal rhaglen ddwys o weithgareddau diwylliannol. Ni phennwyd isafswm o ran maint poblogaeth ar gyfer ardal sy'n ymgeisio; fodd bynnag, mae'n annhebygol y byddai tref lai, sy'n gweithredu ar ei phen ei hun ac y mae ei gallu yn gyfyngedig, yn gallu cynnig y màs critigol er mwyn sicrhau llwyddiant rhaglen a fyddai'n para blwyddyn.

Beth yw diben y broses ymgeisio?

Cynlluniwyd y broses ymgeisio er mwyn sicrhau bod y cais gorau ag y bo modd o'r DU yn cael ei ddewis i fod yn Ddinas Diwylliant 2013 y DU. Dylai'r broses ymgeisio arwain at ddewis ardal y mae ganddi weledigaeth uchelgeisiol ynghylch yr hyn y bydd yn llwyddo i'w gyflawni yn ystod y flwyddyn ac ar ôl hynny; ond hefyd, dylai fod yn ardal y mae ganddi gynlluniau hygred a realistig er mwyn gallu cyflawni'r weledigaeth hon.

Mae'r broses ymgeisio ei hun yn dwyn manteision ehangach. Er mai un ardal a fydd yn cael ei dewis ar gyfer 2013, bydd y broses ymgeisio yn meithrin gweithgarwch datblygu syniadau a phartneriaethau sy'n gallu parhau os dyfarnir y teitl i'r ardal neu beidio, ac y maent yn aml yn gwneud hynny. Bu'r broses ymgeisio yn 2002 ar gyfer Prifddinas Diwylliant Ewropeaidd 2008 yn fodd o ysgogi'r 12 dinas a oedd yn ymgeisio, ac aeth y 6 a gynhwyswyd mewn rhestr fer ymlaen i sefydlu Rhwydwaith Dinasoedd Diwylliant gweithgar, a arweiniodd at sawl prosiect ar y cyd yn 2006 a 2008. Gwelwyd rhai dinasoedd, megis Inverness, yn manteisio ar y syniadaeth yn eu cais i sefydlu Blwyddyn Ddiwylliant yn Ucheldiroedd yr Alban yn 2007.

Mae Llywodraeth y DU yn ymwybodol o'r ffaith bod costau ynghlwm wrth y broses ymgeisio. Cynlluniwyd y broses ymgeisio mewn ffordd sy'n sicrhau cydbwysedd rhwng cynnig y cyfle i

bob ardal ymgeisio, ond gan fod yn rhesymol o ran yr hyn a ddisgwylir ganddynt ar yr un pryd. Dylai'r broses, sy'n cynnwys dau gam, sicrhau bod y costau i'r ardal sy'n ymgeisio yn rhesymol. Yn benodol, dim ond nifer fach o ardaloedd sy'n ymgeisio a fydd yn cael eu cynnwys mewn rhestr fer, ac a fydd yn gorfod mynd i'r ymdrech o ddatblygu elfennau manwl y cais. Yn ogystal, mae'r broses yn golygu bod modd i DCMS a'i haseswyr arbenigol neilltuo mwy o ymdrech tuag at brofi ceisiadau sy'n cael eu cynnwys mewn rhestr fer, yn fanwl.

Rhoddir cyhoeddusrwydd sylweddol i'r broses ymgeisio. Rhestrir yr holl ymgeiswyr ar wefan Dinas Diwylliant y DU DCMS (gyda chysylltiadau i'w gwefannau ymgeisio priodol os oes ganddynt wefannau o'r fath) a bydd DCMS yn cyhoeddi datganiadau i'r wasg ynghylch y rhai sydd wedi penderfynu ymgeisio ar ôl y seminar a gynhelir ar 10 Medi 2009, ynghyd â chanlyniadau'r broses o lunio rhestr fer a'r broses o wneud y dewis terfynol. Mae gan lywodraethau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ddiddordeb mawr ym menter dinas diwylliant ac mae ceisiadau gan ddinasoedd yn y gweinyddiaethau datganoledig yn debygol o sicrhau cyhoeddusrwydd lleol sylweddol.

Proses ac Amserlenni

Isod, disgrifir y broses o ymgeisio, asesu a chynnig cymorth i ymgeiswyr, ynghyd â chrynodeb o'r broses gyffredinol yn Nhabl 1.

Sut mae modd ymgeisio i fod yn Ddinas Diwylliant 2013 y DU?

Anogir yr holl ddarpar ymgeiswyr i gyflwyno **cynnig amlinellol** erbyn 15 Hydref 2009. Mae'n bwysig nodi nad yw'r cynigion amlinellol hyn yn rhan o'r broses asesu ffurfiol. Os bydd ardal yn dewis peidio cyflwyno cynnig amlinellol i DCMS, byddai modd iddi gyflwyno cais cychwynnol o hyd.

Bydd yr aseswyr arbenigol yn asesu'r holl gynigion amlinellol. Yn dilyn yr adolygiad hwn, rhoddir syniad eglur i bob ymgeisydd o gryfderau a gwendidau eu cynigion. Felly, mae DCMS yn annog ymgeiswyr i gyflwyno'u cynigion amlinellol: maent yn cynnig cyfle defnyddiol iawn i roi adborth i ymgeiswyr ynghylch datblygiad eu ceisiadau, er mwyn eu helpu i wella'u cais; yn ogystal, bydd paratoi cynnig amlinellol yn helpu ymgeiswyr i ffurfio a datblygu eu syniadau.

Bydd y broses ymgeisio ffurfiol yn cynnwys dau gam:

Yn gyntaf, rhaid cyflwyno **cais cychwynnol** erbyn 11 Rhagfyr 2009. Nodir y gofynion ar gyfer y cais hwn yn Atodiad B.

Yn ail, bydd angen cyflwyno **cais llawn a therfynol** erbyn 28 Mai 2010. Dim ond ardaloedd a fydd yn cael eu cynnwys mewn rhestr fer o ganlyniad i'w ceisiadau cychwynnol fydd yn cael eu gwahodd i gyflwyno cais llawn a therfynol. Nodir y gofynion ychwanegol a ragwelir ar gyfer y cais hwn yn Atodiad C.

Bydd angen i ymgeiswyr fod yn barod i ateb cyfres o gwestiynau eglurhaol ynghylch eu ceisiadau cychwynnol, ar sail yr asesiad a gynhelir gan yr aseswyr arbenigol[1]. Bydd angen ateb y rhain yn ysgrifenedig a thrwy gyfrwng cyfarfodydd ar gyfer egluro ceisiadau a gynhelir ym mis Ionawr 2010. Bydd yr atebion a roddir i'r cwestiynau eglurhaol hyn yn cael eu

[1] Sylwer: ni fydd yn hyn yn ofynnol ar gyfer cynigion amlinellol.

hystyried fel rhan o'r cais at ddibenion asesu. Cynhelir yr un broses eglurhaol ar gyfer ceisiadau llawn a cheisiadau terfynol gan a gyflwynir gan ddinasoedd sy'n cael eu cynnwys mewn rhestr fer hefyd, ond bydd hyn yn digwydd ym mis Mehefin 2010.

Yn olaf, mae'n debygol iawn y bydd yr ymgeiswyr a fydd yn cael eu cynnwys mewn rhestr fer yn cael eu gwahodd i roi cyflwyniad ynghylch yr achos dros eu cais gerbron y Panel Cynghori Annibynnol ym mis Mehefin 2010.

Sut fydd ceisiadau ar gyfer Dinas Diwylliant 2013 y DU yn cael eu hasesu?

Mae'r broses asesu yn dilyn y broses ymgeisio ac fe fydd yn cael ei seilio ar y meini prawf asesu technegol a nodir yn Atodiad B (ar gyfer ceisiadau cychwynnol) ac Atodiad C (ar gyfer ceisiadau terfynol). Cynhelir yr asesiad technegol gan yr Aseswyr Arbenigol, a fydd yn cynnig cyngor i'r Panel Cynghori Annibynnol (PCA) a fydd yn cael ei sefydlu gan DCMS. Bydd yr asesiadau yn cael eu seilio ar wybodaeth sy'n ymddangos yn y ddogfen ymgeisio berthnasol, yn ogystal â'r ymatebion a roddir i gwestiynau eglurhaol yn ôl yr angen.

Bydd yr aseswyr arbenigol yn cynnig argymhellion i'r Panel Cynghori Annibynnol, i'w hadolygu yn ystod y cam o lunio rhestr fer ac yn ystod y cam asesu terfynol. Bydd PCA yn gwneud argymhelliad ynghylch y rhestr fer, ynghyd ag argymhelliad terfynol ar gyfer Dinas Diwylliant 2013 lwyddiannus y DU i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a fydd yn gyfrifol am wneud y penderfyniad terfynol.

Pa gymorth fydd ar gael i ymgeiswyr Dinas Diwylliant 2013 y DU?

Mae pob ardal yn gyfrifol am ddatblygu ei chais ei hun gan ddefnyddio'i hadnoddau ei hun ac adnoddau partneriaid. Nid oes cyllid cenedlaethol ar gael i dalu am y gost o ymgeisio. Fodd bynnag, mae DCMS yn cynnig cymorth i ymgeiswyr wrth sicrhau y ceir dealltwriaeth eglur o'r broses ymgeisio, y gofynion a'r meini prawf asesu. Mae'r cymorth hwn yn cael ei ddarparu mewn chwe ffordd:

Yn gyntaf, trwy gyfrwng yr arweiniad manwl hwn ac arweiniad manwl dilynol a gyhoeddir ar gyfer ymgeiswyr a fydd yn cael eu cynnwys mewn rhestr fer.

Yn ail, yn ystod seminar a fydd yn cynnig gwybodaeth ynghylch ymgeisio, a gynhelir yn Lerpwl ar 10 Medi. Yn ystod y seminar hon, bydd cyrff cyllido perthnasol ar gael hefyd er mwyn ateb eich ymholiadau ynghylch eu cyfranogiad posibl nhw.

Yn drydydd, trwy gyfrwng cyfarfodydd ar ffurf cymorthfeydd gyda'r aseswyr arbenigol yn ystod y seminar neu'n syth ar ôl y seminar (er mwyn egluro unrhyw faterion am yr arweiniad ynghylch ymgeisio).

Yn bedwerydd, trwy gyfrwng adborth a roddir ynghylch y cynnig amlinellol a gyflwynir gan ymgeiswyr.

Yn bumed, trwy gyfrwng y wefan ar gyfer ymgeiswyr, a fydd yn cynnwys gwybodaeth wedi'i diweddaru ar gyfer yr holl ymgeiswyr ynghylch y broses a'r gofynion. Yn ogystal, bydd y wefan yn cynnwys rhestr o Gwestiynau Cyffredin a ofynnir gan ymgeiswyr, a fydd yn cael ei diweddaru.

Yn chweched, trwy gyfrwng desg gymorth yn Regeneris Consulting, a fydd yn gallu ateb

ymholiadau (Ffôn: 0161 926 9214 neu e-bost ukcc2013@regeneris.co.uk.)

Roedd nifer o gyrff cyllido (ar gyfer Lloegr a'r DU yn ehangach), gan gynnwys Arts Council England, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, English Heritage, VisitBritain, a'r Cyngor Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifau, yn aelodau o Weithgor a sefydlwyd er mwyn ystyried gwerth Dinas Diwylliant 2013 y DU. Maent oll wedi cyfleu eu dymuniad i gynorthwyo'r broses a'r ymgeisydd buddugol, ond mae angen iddynt weithredu mewn ffordd ddiduedd gyda'r holl ymgeiswyr yn ystod y broses ymgeisio, ac ni fydd modd iddynt wneud unrhyw ymrwymiad cadarn neu unigryw i unrhyw un ardal benodol sy'n ymgeisio. Byddai dull gweithredu tebyg yn cael ei fabwysiadu yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Byddai disgwyl i ddinasoedd sy'n ymgeisio gael cyngor cyson a strategol gan gyrff cyllido. Ymhellach ymlaen yn ystod yr amserlen ymgeisio, byddem yn disgwyl i gyrff cyllido gymryd rhan mewn trafodaethau manylach gyda dinasoedd.

Diben y broses gymorth hon yw cynnig cymaint o help ag y bo modd i'r holl ymgeiswyr, gan sicrhau bod modd i bob ymgeisydd fanteisio ar wybodaeth berthnasol yn yr un modd. Os bydd y ddesg gymorth yn ateb ymholiad lle y gofynnir am eglurhad, bydd yr ymateb hwn ar gael i bob ymgeisydd maes o law.

Tabl 1: Yr Amserlen a'r Broses Ymgeisio ac Asesu Gyffredinol

Mis	Proses asesu	Cymorth a roddir i ymgeiswyr*	Y gofynion ar gyfer ymgeiswyr
Awst 2009		• Cyhoeddi arweiniad manwl ynghylch ymgeisio	
Medi 2009		• Seminar ar gyfer ymgeiswyr (***10 Medi***)	
Hydref 2009		• Adborth ynghylch cynigion amlinellol	• Cynigion amlinellol (***15 Hydref***)
Tachwedd 2009			
Rhagfyr 2009	• Asesiad cychwynnol o'r ceisiadau • Datblygu cwestiynau eglurhaol		• Ceisiadau cychwynnol (***11 Rhagfyr***)
Ionawr 2010	• Cyfarfodydd eglurhaol gydag ymgeiswyr • Asesiad terfynol o'r ceisiadau • Gwneud penderfyniad ynghylch y ceisiadau i'w cynnwys mewn rhestr fer	• Cyhoeddi arweiniad pellach i ymgeiswyr ynghylch ceisiadau llawn a therfynol	• Ymatebion i gwestiynau eglurhaol
Chwefror 2010		• Adborth ynghylch ceisiadau cychwynnol	
Mawrth 2010			
Ebrill 2010			
Mai 2010			• Ceisiadau llawn a therfynol (***28 Mai***)
Mehefin 2010	• Asesiad cychwynnol o'r ceisiadau • Cyfarfodydd eglurhaol gydag ymgeiswyr	• Adborth am y ceisiadau llawn a therfynol	• Ymatebion i gwestiynau eglurhaol • Cyflwyno

Tabl 1: Yr Amserlen a'r Broses Ymgeisio ac Asesu Gyffredinol			
Mis	**Proses asesu**	**Cymorth a roddir i ymgeiswyr***	**Y gofynion ar gyfer ymgeiswyr**
	• Asesiad terfynol o'r ceisiadau llawn a therfynol		ceisiadau i'r Panel Cynghori Annibynnol
Sylwer: * bydd desg gymorth a gwefan ar gael ar gyfer ymgeiswyr trwy gydol y broses ymgeisio			

Gwybodaeth Bellach

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â Thîm Asesu Dinas Diwylliant y DU yn Regeneris Consulting (Ffôn: 0161 926 9214 neu ukcc2013@regeneris.co.uk).

1. Atodiad A: Y Gofynion ar gyfer Cynigion Amlinellol

Dylid cyflwyno cynigion amlinellol erbyn 15 Hydref 2009 trwy lenwi a chyflwyno ffurflen y cynnig amlinellol ar wefan Dinas Diwylliant y DU. Ni ddylai ffurflen y cynnig amlinellol fod dros 10 tudalen o hyd (ac eithrio atodiadau), a dylid defnyddio ffurfdeip heb fod yn llai na gradd 10 (isod, rhoddir crynodeb o elfennau allweddol y ffurflen).

Prif ddiben y cynigion amlinellol yw cynnig cyfle i roi **adborth** i ymgeiswyr ynghylch y cynnydd y maent yn ei sicrhau a sut y mae eu ceisiadau yn datblygu yn erbyn y meini prawf ymgeisio ac asesu. Yn ogystal, mae'n gam pwysig a defnyddiol i ymgeiswyr wrth iddynt ddatblygu a mireinio'u ceisiadau. Ni chynhelir asesiad ffurfiol o'r cynigion amlinellol ac ni fydd yr adolygiad o'r cynigion amlinellol a'r adborth a roddir yn eu cylch yn cyfrannu at yr asesiad o'r cais cychwynnol mewn unrhyw ffordd (cadarnhaol neu negyddol).

Cynnig Amlinellol ar gyfer Dinas Diwylliant 2013 y DU XX

Eich Ardal a'r Weledigaeth Gyffredinol: [2 dudalen]

1. Beth yw'r ardal ddaearyddol sy'n cael ei chynnwys yn eich cais a pham bod yr ardal hon yn gwneud synnwyr fel Dinas Diwylliant y DU?
2. Pam bod angen i'ch ardal chi weld y math o newid sylweddol y byddai modd i statws Dinas Diwylliant y DU ei sicrhau ar ei chyfer?
3. Beth yw'ch gweledigaeth gyffredinol ar gyfer natur ac effaith rhaglen Dinas Diwylliant y DU yn eich ardal chi?
4. Beth yw prif themâu a chydrannau'ch rhaglen weithgarwch yn ystod 2013?

Amcanion Diwylliannol ac Artistig: **[2 dudalen]**

1. Beth fyddai'n drawiadol ac yn arloesol am eich rhaglen ddiwylliannol chi (gan gynnwys unrhyw brif brosiectau)?
2. Sut fyddech yn sicrhau rhagoriaeth ddiwylliannol gan gynnwys gweithgarwch a fyddai'n cynnwys artistiaid lleol ac artistiaid cenedlaethol a rhyngwladol
3. Pa bartneriaethau a rhwydweithiau diwylliannol fyddai'n cael cyswllt gyda'r broses?
4. Pa leoliadau, sefydliadau a digwyddiadau sy'n bodoli eisoes yr ydych yn bwriadu eu defnyddio/datblygu?
5. Beth yw'ch sefyllfa sylfaenol a sut fyddech yn disgwyl ehangu lefelau cyfranogi yn y celfyddydau a diwylliant ymhlith trigolion eich ardal?
6. Sut fyddech yn sicrhau amrywiaeth yn y rhaglen ddiwylliannol ac artistig?
7. Sut fyddech yn datblygu ac yn cysylltu gyda'r Olympiad Diwylliannol neu ddigwyddiadau allweddol eraill megis Glasgow 2014?

***Sylwer**: mae modd i chi gynnwys rhaglen amlinellol fel Atodiad os ydych yn dymuno*

Amcanion Cymdeithasol: **[1 tudalen]**

1. Beth fydd rôl y rhaglen ddiwylliant yn y gwaith o adfywio'ch ardal chi yn eich barn chi?
2. Sut fyddai Dinas Diwylliant y DU yn cynyddu lefelau ymgysylltu pobl ifanc mewn gweithgarwch hyfforddiant, addysg a chyflogaeth?
3. Sut fyddai rhaglen Dinas Diwylliant y DU yn gwella cydlyniant cymunedol mewn rhannau o'ch ardal chi neu yn yr ardal gyfan?
4. Sut fyddai rhaglen Dinas Diwylliant y DU yn ceisio cyrraedd ac ymgysylltu gyda gwahanol gymunedau yn eich ardal?
5. Sut fyddwch yn sicrhau bod modd i'r holl grwpiau mewn cymdeithas fanteisio ar raglen Dinas Diwylliant y DU?

Amcanion Economaidd: **[1 tudalen]**

1. Pa hwb i'ch economi ymwelwyr yr ydych yn ei ragweld yn ystod 2013 ac yn ystod blynyddoedd dilynol?
2. Sut fyddai bod yn Ddinas Diwylliant y DU yn cysylltu gyda'ch dull gweithredu presennol a'ch dull gweithredu arfaethedig er mwyn marchnata'ch ardal i ymwelwyr?
3. Beth yw nerth presennol y sector/economi greadigol yn eich ardal, a sut y bydd Dinas Diwylliant y DU yn helpu i roi hwb i hyn?

Trefniadaeth a Phartneriaeth: **[2 dudalen]**

1. Pwy sy'n arwain y cais?
2. Pwy arall sy'n cynorthwyo'r cais
3. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, sut fyddai'r broses o ddatblygu a chyflwyno rhaglen Dinas Diwylliant y DU yn cael ei rheoli?
4. Pa brofiad sydd gennych chi a'ch partneriaid o drefnu a chyflwyno rhaglenni digwyddiadau a gweithgarwch diwylliannol arwyddocaol?

Cyllid: **[1 tudalen]**

1. Beth ydych yn disgwyl i'r gost fod o gyflwyno'ch rhaglen arfaethedig yn 2013?
2. Faint o'r gost gyfan gwbl hon y byddai angen sicrhau cyllid ychwanegol ar ei gyfer, yn ychwanegol i'r lefelau cymorth sy'n cael eu neilltuo ar gyfer diwylliant yn eich ardal chi ar hyn o bryd?
3. O ble yr ydych yn disgwyl cael y cyllid hwn (ffynonellau sector cyhoeddus, nawdd gan y sector preifat, refeniw gwerthu ar gyfer digwyddiadau)?

Canlyniadau: **[1 tudalen]**

1. Yn gyffredinol, sut fyddwch yn sicrhau na fydd effaith bod yn Ddinas Diwylliant 2013 y DU yn effaith a welir unwaith yn unig?
2. Beth fydd prif elfennau'r canlyniadau parhaus yn eich ardal chi o fod yn Ddinas Diwylliant 2013 y DU (diwylliannol, cymdeithasol neu economaidd)?

A fyddech gystal ag anfon y ffurflen hon mewn neges e-bost i'r cyfeiriadau canlynol erbyn diwedd y dydd, 15 Hydref 2009:

ukcc2013@regeneris.co.uk a

ukcityofculture@culture.gsi.gov.uk.

2. Atodiad B: Y Gofynion ar gyfer Ceisiadau Cychwynnol

Mae'r Atodiad hwn yn nodi'r gofynion ar gyfer ceisiadau cychwynnol i fod yn Ddinas Diwylliant 2013 y DU, gan esbonio sut y byddant yn cael eu hasesu yn ystod y broses o lunio'r rhestr fer.

Gofynion a Ffiniau Ymgeisio

Yn y datganiad i'r wasg a oedd yn cyhoeddi'r gystadleuaeth i fod yn Ddinas Diwylliant 2013 y DU, nododd DCMS yn eglur y bydd ceisiadau "*yn cael eu hasesu ar sail gallu'r rhaglen arfaethedig ar gyfer Dinas Diwylliant y DU i wneud newid sylweddol yn y ddinas honno*". Fel y mae profiad Lerpwl o fod yn Brifddinas Diwylliant 2008 Ewrop yn dangos, mae Llywodraeth y DU o'r farn bod rhoi ffocws cryf ar ddiwylliant a rhaglen ddiwylliannol ar raddfa fawr, yn gallu arwain at newid sylweddol go iawn mewn ardal.

Mae Llywodraeth y DU yn chwilio am geisiadau sy'n gallu dangos

Rhaglen ddiwylliannol o ansawdd uchel, sy'n datblygu ac sy'n ehangu cryfderau ac asedau lleol, gan gyrraedd amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd, ac sy'n ddilyniant addas i Brifddinas Diwylliant Lerpwl a'r Olympiad Diwylliannol;

Rhaglen sy'n defnyddio diwylliant er mwyn arwain gweithgarwch adfywio cymdeithasol parhaus trwy ymgysylltu, ehangu cyfranogiad a chynorthwyo amrywiaeth ddiwylliannol;

Effaith economaidd amlwg y rhaglen;

Hygrededd eu cynlluniau (gan gynnwys cymorth gan bartneriaid allweddol) a phrofiad amlwg o gyflawni; a

Dull gweithredu eglur tuag at fanteisio'n llawn ar y canlyniadau a gwerthuso'r effaith.

Rhaid dilyn y canllawiau canlynol sy'n ymwneud â ffurf y ceisiadau:

1) Dylid anfon prif ddogfen y cais ar ffurf ffeil PDF unigol mewn neges e-bost at ukcc2013@regeneris.co.uk erbyn **canol nos, 11 Rhagfyr 2009**. Bydd gan DCMS y disgresiwn i benderfynu a fydd unrhyw geisiadau a gyflwynir ar ôl y dyddiad cau hwn yn cael eu derbyn i'w hasesu.

2) Yr unig adeg y bydd modd i ymgeiswyr ychwanegu at eu ceisiadau a'u hegluro yw wrth ymateb i gwestiwn a ofynnir gan yr aseswyr arbenigol (h.y. ni fydd modd iddynt gyflwyno deunydd ychwanegol o'u gwirfodd ar ôl y dyddiad cau).

3) Ni ddylai ceisiadau fod dros 30 tudalen o hyd (ac eithrio atodiadau), a dylid eu hysgrifennu mewn Saesneg eglur ac mewn ffont nad yw'n llai na gradd 10. Gall ymgeiswyr ddefnyddio lluniau a gwaith graffig er mwyn gwella deunydd, ond bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn nifer cyfyngedig y tudalennau a ganiateir.

4) Yn ogystal, dylai tri chopi caled rhwymedig o gasgliad llawn dogfennau'r cais (gan gynnwys unrhyw atodiadau), yn ogystal â thri copi ar Gryno Ddisg, gyrraedd Tîm Asesu Dinas Diwylliant y DU, Regeneris Consulting, One Ashley Road, Altrincham, Greater Manchester, WA14 2DT erbyn 14 Rhagfyr 2009 fan bellaf.

5) Mae DCMS yn awyddus i gadw'r gost o baratoi cais mor isel ag y bo modd. Ar gyfer ceisiadau cychwynnol, byddem yn annog ymgeiswyr i beidio paratoi disgiau DVD a chyflwyniadau amlgyfrwng eraill o'u ceisiadau. Dylid pwysleisio bod y meini prawf asesu yn ymwneud â chynnwys ceisiadau, nid ffurf eu cyflwyniad.

Y Broses Asesu

Asesir pob cais yn unol â'r meini prawf a nodir isod, a byddant yn cael eu seilio ar y ceisiadau ysgrifenedig a gyflwynir erbyn 11 Rhagfyr 2009 a chan ymatebion i'r cwestiynau eglurhaol (pan fo hynny'n briodol).

Mae'n bwysig pwysleisio bod yn rhaid i unrhyw gais sicrhau sgôr cryf ar gyfer Rhan B (gweledigaeth, rhaglen ac effeithiau a fwriedir) a Rhan C (gallu cyflwyno) er mwyn cael eu cynnwys mewn rhestr fer. Ar yr adeg hon, rhagwelir y bydd pedwar cais yn cael eu cynnwys mewn rhestr fer, fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar nifer ac ansawdd y ceisiadau a geir.

Bydd asesiad trosolwg yr aseswyr arbenigol yn cael ei gyfleu i'r holl ymgeiswyr ar ôl cyhoeddi'r penderfyniad ynghylch y rhai a fydd yn cael eu cynnwys mewn rhestr fer.

Tabl B1: Dinas Diwylliant 2013 y DU – Ceisiadau CYCHWYNNOL		
Elfen	**Gofyniad Ymgeisio**	**Meini Prawf Asesu**
RHAN A:	**CRYNODEB**	
	Crynodeb o'ch cais mewn un tudalen	*Dim, er gwybodaeth yn unig*
RHAN B:	**GWELEDIGAETH, RHAGLEN AC EFFEITHIAU**	**Cyfanswm y Sgôr uchaf allan o 100**
Eich Ardal	1. Disgrifiwch yr ardal ddaearyddol sy'n cael ei chynnwys yn eich cais a pham bod yr ardal hon yn gwneud synnwyr fel Dinas Diwylliant y DU? 2. Pam bod angen i'ch ardal chi weld y math o newid sylweddol y byddai modd i statws Dinas Diwylliant y DU ei sicrhau ar ei chyfer? 3. Sut ydych wedi nodi diwylliant fel mecanwaith er mwyn cyflawni newid sylweddol yn eich ardal?	**Sgôr uchaf=5** • *Pa mor hygred yw'r ardal a ddewiswyd er mwyn cyflwyno rhaglen o ddigwyddiadau diwylliannol a fydd yn para blwyddyn, ac a fydd yn glir ei chanolbwynt* • *A oes gan yr ardal hunaniaeth eglur ar gyfer ymwelwyr, neu a oes ganddi'r potensial i sefydlu hunaniaeth o'r fath?* • *A yw'r ymgeisydd wedi dangos pam bod angen iddynt gynnal Dinas Diwylliant y DU?*
Gweledigaeth	4. Pam ddylech chi gynnal Dinas Diwylliant 2013 y DU:	**Sgôr uchaf=15**

[2] Mae pob ymgeisydd yn gyfrifol am benderfynu sut i fesur newidiadau sylweddol: gallent fod ar ffurf lefelau ymgysylltu a chyfranogiad diwylliannol y boblogaeth leol; cydlyniant cymunedol gwell a llai o eithrio cymdeithasol; maint a chryfder y sector diwylliannol a chreadigol; gwariant gan ymwelwyr; delwedd ac ymwybyddiaeth o'r ardal; neu gyfuniad o'r ffactorau hyn.

Tabl B1: Dinas Diwylliant 2013 y DU – Ceisiadau CYCHWYNNOL		
Elfen	**Gofyniad Ymgeisio**	**Meini Prawf Asesu**
Gyffredinol ar gyfer Dinas Diwylliant 2013	beth yw'ch gweledigaeth gyffredinol ar gyfer rhaglen Dinas Diwylliant y DU yn eich ardal? 5. Beth sy'n wahanol ac yn drawiadol am eich gweledigaeth? 6. Pa newidiadau sylweddol[2] y bydd Dinas Diwylliant 2013 y DU yn eich helpu i'w cyflawni yn eich ardal (dylid nodi'r sefyllfa sylfaenol a'r newidiadau a fwriedir)? 7. Beth yw prif themâu a chydrannau'ch rhaglen weithgarwch yn ystod 2013? [*Dylech gynnwys rhaglen amlinellol ar gyfer 2013 (a'r cyfnod cyn hynny os ydych yn dymuno, ni fydd angen i hwn fod dros 2 dudalen o hyd) fel* ***Atodiad A*** *y cais hwn.]*	• *A oes gweledigaeth eglur ar gyfer rhaglen Dinas Diwylliant y DU|?* • *A yw'r weledigaeth a'r rhaglen yn drawiadol ac a cheir cyswllt amlwg rhyngddynt a natur yr ardal?* • *A yw effeithiau'r newid sylweddol a fwriedir yn sylweddol (ond yn debygol) o'u cymharu gyda'r lefelau sylfaenol?*
Cryfderau Diwylliannol ac Artistig y Cais	8. Beth yw'r prif asedau diwylliannol yn eich ardal y byddwch yn eu datblygu? 9. Beth yw'r cyfleoedd diwylliannol annatblygedig y mae'ch cais yn bwriadu manteisio arnynt a sut fyddwch yn ehangu'ch asedau presennol gymaint ag y bo modd? 10. Beth yw'r prif fylchau neu wendidau yn eich cynnig diwylliannol? A sut fyddwch yn defnyddio Dinas Diwylliant y DU er mwyn delio â'r rhain? 11. Beth fyddai'n drawiadol ac yn arloesol am eich rhaglen ddiwylliannol? 12. I ba raddau y byddwch yn defnyddio technoleg ddigidol er mwyn ymestyn cyrhaeddiad, cwmpas ac effaith gweithgarwch artistig a diwylliannol, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc? 13. Sut fyddech yn sicrhau rhagoriaeth ddiwylliannol, gan gynnwys cyfranogiad artistiaid lleol, cenedlaethol a rhyngwladol? 14. Pa bartneriaethau a rhwydweithiau diwylliannol a fyddai'n rhan o'r gwaith hwn? 15. Pa leoliadau, sefydliadau a digwyddiadau sy'n bodoli eisoes, yr ydych yn bwriadu eu defnyddio/datblygu? 16. Beth yw'ch sefyllfa sylfaenol a sut fyddech yn ehangu lefelau cyfranogi yn y celfyddydau a diwylliant ymhlith gwahanol grwpiau o'r trigolion yn eich ardal? 17. Sut fyddech yn sicrhau amrywiaeth yn y rhaglen ddiwylliannol ac artistig? 18. Pa gyfleoedd fydd yn bodoli ar gyfer artistiaid a sefydliadau celf i ddatblygu eu gwaith ymhellach? 19. Sut fyddech yn datblygu/cysylltu gyda'r Olympiad Diwylliannol neu ddigwyddiadau allweddol eraill megis Glasgow 2014?	**Sgôr uchaf=45** • *A yw'r seiliau diwylliannol ar gyfer y cais yn eglur? A yw'r rhain yn hygred ac wedi'u cysylltu gyda'r rhaglen a fwriedir?* • *Pa mor dda y mae'r rhaglen arfaethedig yn defnyddio rhwydweithiau, partneriaethau a chyfleusterau diwylliannol sy'n bodoli eisoes?* • *A yw'r rhaglen amlinellol yn cynnwys elfennau trawiadol arwyddocaol ar draws amrediad o ffurfiau celf?* • *A yw'r cais wedi nodi artistiaid posibl o arwyddocâd cenedlaethol neu ryngwladol? Pa mor hygred yw ei ddyheadau?* • *Beth yw'r effaith gyffredinol ar lefelau cyfranogi diwylliannol cyffredinol ac ymhlith grwpiau gwahanol a fwriedir gan y rhaglen?* • *A yw'r cais wedi delio â chysylltiadau gyda'r Olympiad Diwylliannol a digwyddiadau allweddol eraill megis Glasgow 2014, gan ystyried sut y byddai'n cael cyswllt gyda'r rhain?*

Tabl B1: Dinas Diwylliant 2013 y DU – Ceisiadau CYCHWYNNOL		
Elfen	**Gofyniad Ymgeisio**	**Meini Prawf Asesu**
Effeithiau Cymdeithasol Dinas Diwylliant y DU	20. Sut mae gweithgarwch diwylliannol yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd er mwyn cyflawni gwaith adfywio a chydlyniant cymunedol yn eich ardal chi? 21. Beth fydd rôl y rhaglen ddiwylliant yn y gwaith o adfywio'ch ardal chi yn eich barn chi? 22. Sut fyddai Dinas Diwylliant y DU yn cynyddu lefelau ymgysylltu pobl ifanc mewn gweithgarwch hyfforddiant, addysg a chyflogaeth? 23. Sut fyddai rhaglen Dinas Diwylliant y DU yn gwella cydlyniant cymunedol mewn rhannau o'ch ardal chi neu yn yr ardal gyfan? 24. Sut fyddai rhaglen Dinas Diwylliant y DU yn ceisio cyrraedd ac ymgysylltu gyda gwahanol gymunedau yn eich ardal? 25. Sut fyddwch yn cynyddu lefelau cyfranogi, manteisio ac arloesedd gymaint ag y bo modd trwy gyfrwng technolegau digidol? 26. Sut fyddwch yn sicrhau bod modd i'r holl grwpiau yn y gymdeithas fanteisio ar raglen Dinas Diwylliant y DU? [*Dylech gynnwys disgrifiad o weithgareddau sylfaenol sy'n cael eu cynnal eisoes, ynghyd ag enghreifftiau o'r ffordd y byddai hyn yn cael ei ddatblygu dan Ddinas Diwylliant y DU fel* ***Atodiad B*** *i'ch cais*]	**Sgôr uchaf=20** • *A oes gan y cais gynlluniau realistig a mecanwaith er mwyn sicrhau gweithgarwch ymgysylltu helaeth yn Ninas Diwylliant 2013 y DU?* • *A ydynt yn datblygu profiad presennol o gyflawniad o'r fath?* • *Pa mor effeithiol a realistig yw'r dyheadau er mwyn ymgysylltu gyda phobl ifanc?* • *A yw'n eglur sut y byddai'r rhaglen arfaethedig yn cyrraedd yr holl gymunedau yn yr ardal?* • *A cheir cynllun eglur er mwyn sicrhau hygyrchedd gweithgareddau diwylliannol (ffisegol ac agweddol) i bob cynulleidfa, gan gynnwys pobl anabl, pobl hŷn a'r rhai sy'n perthyn i grwpiau BME?*
Effeithiau	27. Pa hwb i'ch economi ymwelwyr yr ydych yn ei	**Sgôr uchaf=15**

Tabl B1: Dinas Diwylliant 2013 y DU – Ceisiadau CYCHWYNNOL		
Elfen	**Gofyniad Ymgeisio**	**Meini Prawf Asesu**
Dinas Diwylliant y DU ar yr Economi ac ar Dwristiaeth	ragweld yn ystod 2013 ac yn ystod blynyddoedd dilynol (gwariant ac ymweliadau ychwanegol)? 28. Sut fyddai Dinas Diwylliant 2013 y DU yn datblygu ac yn cael cyswllt gyda'ch gweithgarwch twristiaeth presennol a'r hyn a gynigir yn eich ardal ar hyn o bryd? 29. Sut fyddai bod yn Ddinas Diwylliant y DU yn cael cyswllt gyda'ch dull gweithredu presennol a'ch dull gweithredu arfaethedig er mwyn marchnata'ch ardal i ymwelwyr? 30. Sut fyddech yn sicrhau y byddech yn cynyddu'r effaith net ar yr economi ymwelwyr a thwristiaeth gymaint ag y bo modd? 31. Sut fyddech yn sicrhau bod eich seilwaith twristiaeth a thrafnidiaeth yn meddu ar y gallu i ddelio ag ymwelwyr yn eich ardal, a'i fod yn gallu bodloni gofynion mynediad yr holl dwristiaid? 32. Beth yw nerth a natur presennol y sector/economi greadigol yn eich ardal? 33. Sut y byddai bod yn Ddinas Diwylliant y DU yn 2013 yn helpu i roi hwb i'r sector hwn? [*Dylech gynnwys crynodeb o'ch economi ymwelwyr a'ch sector creadigol a diwylliannol ar hyn o bryd er mwyn helpu'r aseswyr i ddeall eich dyheadau, fel* ***Atodiad C*** *eich cais*]	• *A yw'n eglur sut y byddai'r economi ymwelwyr yn cael hwb yn 2013? A yw'r amcangyfrifon ynghylch yr effaith yn debygol?* • *A yw'n eglur sut y byddai Dinas Diwylliant y DU yn cael ei ddefnyddio er mwyn marchnata'r ardal i ymwelwyr?* • *A ydynt wedi ystyried sut i reoli ymwelwyr a sicrhau bod y gallu yn bodoli i ddelio gydag unrhyw ymwelwyr ychwanegol?* • *A cheir economi greadigol arwyddocaol sy'n bodoli eisoes, y mae'n addas i'w ddatblygu?* • *A yw'r dyheadau o ran yr effaith wrth sicrhau twf y sector creadigol a diwylliannol yn hygred?*

Tabl B1: Dinas Diwylliant 2013 y DU – Ceisiadau CYCHWYNNOL		
RHAN C:	**GALLU A CHYNIGION YNGHYLCH CYFLAWNI**	**Cyfanswm y Sgôr uchaf allan o 100**
Trefniadaeth a datblygiad y cais a Threfniadau Rheoli a Llywodraethu arfaethedig ar gyfer Dinas Diwylliant y DU	1. Pwy sy'n arwain y cais? 2. Pwy arall sy'n cynorthwyo'r cais? 3. Sut fyddai'r gwaith o ddatblygu a chyflawni rhaglen Dinas Diwylliant y DU yn cael ei reoli? 4. Beth fyddai rôl pob partner a nodwyd gennych yn y cais? [*Dylech gynnwys rhestr o'r holl sefydliadau ac unigolion y maent wedi bod yn ymwneud â'r gwaith o ddatblygu'r cais, gan nodi eu rôl yn y gwaith datblygu, fel* ***Atodiad D*** *eich cais*]	**Sgôr uchaf=15** • *A oes partneriaeth eang yn ymwneud â'r cais?* • *Pa mor gryf y mae'r gefnogaeth ar gyfer y cais yn ymddangos?* • *A cheir trefniadau llywodraethu eglur?* • *A ydynt wedi ystyried sut y byddai'r rhaglen yn cael ei datblygu, gan gynnwys rôl posibl cyfarwyddwr (cyfarwyddwyr) artistig?*
Profiad	5. Pa brofiad sydd gennych chi a'ch partneriaid o drefnu a chyflwyno rhaglenni digwyddiadau diwylliannol arwyddocaol (dylech gynnwys enghreifftiau, gan nodi natur y digwyddiadau/gweithgarwch, ei hyd a'i gost amcangyfrifedig)? 6. Beth ydych chi wedi ei ddysgu o'r profiad hwn wrth ddatblygu'r cais presennol? [*Dylech gynnwys rhestr o ddigwyddiadau a gweithgareddau blaenorol yr ydych chi a'ch partneriaid wedi'u rheoli dros y* ***5 mlynedd ddiwethaf*** *fel* ***Atodiad E*** *eich cais]*	**Sgôr uchaf=20** • *Pa mor gadarn yw'r profiad o gynnal rhaglenni digwyddiadau unigol?* • *Pa mor eang yw'r profiad hwn?* • *Pa mor ddiweddar yw'r profiad hwn?*
Partneriaethau a Chyllid	7. Beth ydych yn disgwyl i'r gost fod o gyflwyno'ch rhaglen arfaethedig? 8. Faint o'r gost gyfan gwbl hon y byddai angen sicrhau cyllid ychwanegol ar ei gyfer, yn ychwanegol i'r lefelau cymorth sy'n cael eu neilltuo ar gyfer diwylliant yn eich ardal chi ar hyn o bryd? 9. O ble yr ydych yn disgwyl cael y cyllid hwn (ffynonellau sector cyhoeddus, nawdd gan y sector preifat, refeniw gwerthu ar gyfer digwyddiadau)? 10. Beth yw nerth yr ymrwymiad sy'n bodoli er mwyn darparu'r ffynonellau ariannol hyn? 11. Pwy fyddai'n cyflawni rôl gwarantwr ariannol ar gyfer rhaglen Dinas Diwylliant y DU? 12. Sut fyddech yn gweithio gyda phartneriaid cenedlaethol os byddech yn llwyddiannus?	**Sgôr uchaf=15** • *Pa mor realistig yw'r amcangyfrifon ynghylch y gost?* • *Pa mor realistig yw'r dyheadau ynghylch cyllido?* • *Pa dystiolaeth a welir o ymrwymiad i ymateb i'r bwlch cyllido ac o weithredu fel gwarantwr?* • *A yw'r rolau a ragwelir ar gyfer partneriaid cenedlaethol a chyllidwyr posibl yn realistig ac yn rhai y mae modd eu cyflawni?*
Asesu Risg	13. Os byddwch yn llwyddiannus, beth yw'r prif risgiau wrth geisio cyflawni'ch gweledigaeth yn eich barn chi? 14. Pa fesurau lliniarol y byddech yn eu gweithredu er mwyn cyfyngu'r risgiau hyn?	**Sgôr uchaf=10** • *A yw'r ymgeiswyr wedi nodi'r risgiau allweddol?* • *A yw'r mesurau lliniaru a gynigir yn hygred?*

Tabl B1: Dinas Diwylliant 2013 y DU – Ceisiadau CYCHWYNNOL		
RHAN C:	**GALLU A CHYNIGION YNGHYLCH CYFLAWNI**	**Cyfanswm y Sgôr uchaf allan o 100**
Canlyniadau	15. Yn gyffredinol, sut fyddwch yn sicrhau na fydd effaith bod yn Ddinas Diwylliant y DU yn 2013 yn effaith a welir unwaith yn unig? 16. Sut fyddwch yn sicrhau gweithgarwch ymgysylltu diwylliannol parhaus gyda grwpiau y mae'r lefelau ymgysylltu ar eu cyfer yn tueddu i fod yn is? 17. Sut fyddwch yn cadw ac yn ailddefnyddio'r arbenigedd a sicrhawyd wrth reoli Dinas Ddiwylliant 2013 y DU yn llwyddiannus, yn ystod blynyddoedd dilynol? 18. Beth fydd prif elfennau'r canlyniadau parhaus yn eich ardal chi o fod yn Ddinas Diwylliant y DU yn 2013 (ar lefel ddiwylliannol, cymdeithasol neu economaidd)?	**Sgôr uchaf=25** • *A ydynt wedi manteisio ar wersi a ddysgwyd gan ddigwyddiadau mawr eraill naill ai yn eu hardal nhw neu mewn ardaloedd eraill?* • *A ystyriwyd y prif faterion sy'n ymwneud â'r canlyniadau, a sut mae hyn wedi cael ei gynnwys yn y gwaith cynllunio?*
Dysgu a gwerthuso	19. Sut fyddwch yn gwerthuso effaith Dinas Ddiwylliant 2013 y DU, gan fesur a ydych wedi cyflawni'r newid sylweddol yr ydych yn ei chwennych? 20. Sut fyddwch yn mesur ac yn dadansoddi lefelau ymgysylltu ymhlith holl grwpiau'r boblogaeth? 21. Sut fyddwch yn rhannu'r hyn a fydd yn cael ei ddysgu o'r broses?	**Sgôr uchaf=15** • *A ydynt wedi ystyried gofynion y gwaith gwerthuso a'r costau sy'n gysylltiedig gyda hyn?* • *Pa mor effeithiol yw'r mecanweithiau arfaethedig er mwyn casglu a rhannu dysgu?*
Sylwer: **mae angen cynnwys Atodiadau A i E gyda'r cais**		

3. Atodiad C: Y Gofynion ar gyfer Ceisiadau Llawn a Therfynol

Mae'r Atodiad hwn yn nodi'r gofynion ychwanegol ar gyfer ceisiadau llawn a therfynol ar gyfer Dinas Diwylliant 2013 y DU, gan esbonio sut y byddant yn cael eu hasesu yn ystod proses y rhestr fer.

Gofynion a Ffiniau Ymgeisio

Ar ôl iddynt gael eu cynnwys yn y rhestr fer, bydd cyfnod pellach yn cael ei neilltuo i'r ymgeiswyr llwyddiannus er mwyn iddynt wneud gwaith manylach ar eu ceisiadau, ac er mwyn delio ag unrhyw diffygion a nodwyd yn ystod y broses o lunio'r rhestr fer. Er mwyn eu cynorthwyo gyda'r broses hon:

Bydd set o sylwadau adborth manwl gan yr aseswyr arbenigol/Panel Cynghori Annibynnol yn cael ei darparu i bob ymgeisydd sy'n cael eu cynnwys yn y rhestr fer.

Darparir arweiniad manwl pellach ynghylch y manylion ychwanegol a fydd yn angenrheidiol ar gyfer y cais llawn a therfynol ym mis Ionawr 2010.

Bydd cyfle ychwanegol i gynnal deialog gyda chyrff cenedlaethol sydd wedi ymrwymo i gynorthwyo Dinas Diwylliant 2013 y DU.

Ar yr adeg hon, rydym wedi gwneud penderfyniad bwriadol i beidio darparu arweiniad manwl ynghylch y gofynion ychwanegol ar gyfer y cais llawn a therfynol, o'i gymharu â'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer y ceisiadau cychwynnol. Y rheswm dros hyn yw y bydd angen i'r aseswyr a DCMS ystyried unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg gyda'r ceisiadau cychwynnol ar ôl iddynt gyrraedd ym mis Rhagfyr 2009. Felly, bydd angen i'r arweiniad terfynol gynnwys unrhyw feysydd o bryder allweddol sy'n deillio o'r ceisiadau cychwynnol.

Er na chyhoeddir arweiniad manwl ynghylch y ceisiadau llawn a therfynol ar yr adeg hon, mae'r prif feysydd lle y disgwylir gwaith a manylder ychwanegol gan ymgeiswyr yn eu cylch, fel a ganlyn:

1) Rhaglen ddiwylliannol arfaethedig a sut y bydd hon yn datblygu asedau diwylliannol sy'n bodoli eisoes

2) Cynllun marchnata

3) Cynllunio costio a chyllido

4) Yr hyn a ddisgwylir gan bartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol wrth gyflawni'r cais

5) Cadarnhad o ymrwymiadau partneriaid allweddol

6) Tystiolaeth o weithgarwch ymgysylltu eang yn y broses o ddatblygu'r cais.

Disgwyliwn y bydd angen i ymgeiswyr wneud rhai addasiadau i brif ddogfennau eu cais, ond y bydd y rhan fwyaf o'r gwaith ychwanegol yn cael ei adlewyrchu mewn atodiadau ategol ychwanegol a fydd yn cynnwys rhagor o fanylion am y cais arfaethedig.

Proses Asesu

Asesir pob cais yn unol â'r meini prawf a ddarparir ym mis Ionawr 2010, a byddant yn cael eu seilio ar y ceisiadau ysgrifenedig a gyflwynir erbyn 28 Mai 2010 ac ar ymatebion i'r cwestiynau eglurhaol (pan fo hynny'n briodol). Bydd asesiad trosolwg yr aseswyr/Panel Cynghori Annibynnol yn cael ei gyfleu i'r holl ymgeiswyr ar ôl cyhoeddi'r penderfyniad terfynol.

Ar yr adeg hon, ni ragwelir y bydd y pwys cyffredinol a roddir ar y gwahanol agweddau ar y ceisiadau yn amrywio'n fawr o'r rhai yn y fframwaith asesu ar gyfer ceisiadau cychwynnol. Fodd bynnag, efallai y bydd angen i'r pwysoliadau a'r meini prawf asesu ganolbwyntio ar unrhyw feysydd o bryder cyffredinol a fydd yn deillio o'r asesiad a gynhelir o'r ceisiadau cychwynnol.